**Cyngor Cymuned Ganllwyd**

**Cofnodion cyfarfod Nos Fercher Medi 13eg 2017.**

**Presennol.**

Cyng D.Morris,Cyng S.Roberts, Cyng C.Edwards.Cyng G.Jones, Cyng G.Hughes Cyng C.Dixon Cyng P.Jenkins

**Ymddiheuriadau**

Cyng G.Edwards

**Datgan diddordeb.**

Neb

**Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 12fed Gorffennaf 2017**

Cyng Dixon yn cynnig fod y cofnodion yn gywir Cyng Roberts yn eilio.

**Maretion yn codi:**

**Gwefan y Cyngor**

Cytunodd y cynghorwyr y byddai fformat y wefan fel a ganlyn;

Tudalen 1- Cyflwyniad a croseo i'r safle, map o'r ward a polisi iaith.

O'r dudalen agoriadol bydd dolenni i'r tudalennau canlynol;

- Tudalen yn cynnwys manylion y Cynghorwyr,Cynghorwr Sir & Clerc
- Dyddiad cyfarfodydd, rhestr agenda a chofnodion (ol-dyddio i Ebrill 2017)
- Cyfrifon ar ddogfennau BDO
- Polisiau y cyngor e.e Rheolau sfydlog, asesiad risg a.y.
- Cysylltiadau i partneriad y cyngor e.e Cyng Gwynedd,CNC a.y.b

Bydd y cyngor yn adolygu delwedd a chynnwys y wefan yn barhaus.

**Safle'r Ysgol.**

Mae Cyng Edwards wedi casglu gwybodaeth am berchennog safle'r ysgol a bydd y manylion yn cael ei hafnon ymlaen i Cyngor Gwynedd (Mr Meilir Hughes).

**Awdit 2016.**

Mae'r Cyngor wedi derbyn gwybodaeth manwl gan y swyddfa archwilio yn Caerdydd ynglyn costau'r awdit yn 2016.

Ar ol nodi'r gyfradd gormodol a godwyd gan yr archwilwyr mewn perthynas a'u dyletswyddau teimla'r cynghorwyr nad oedd dewis ond talu'r bill o £346.80.

**Cynghorwr Sir**

Ysgol Bro Idris- Mae'r ysgol newydd wedi agor ar arwyddion cynnar yw bod y broses addysg yn rhedeg yn esmwyth.

Mae staffio ar y lefelau gofynnol hefo swyddi wedi llenwi.

Nododd y cynghorwyr fod y bws sydd yn casglu plant y Ganllwyd yn hwyr ar ddiwrnod cyntaf y tymor ond fod pethau wedi gwellhau ers hynny.

Safle Llanelltyd- Bydd y ffensio dros dro sydd o gwmpas y safle chwarae yn aros hyd nes hanner tymor Hydref.

**Cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus.**

Mae gwaith cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus lleol wedi eu gwblhau.

Mae rhestr o'r llwybrau sydd wedi cael eu trin gan y clerc.

Cyngor i dalu £660 i Mr Thompson am ei waith.

**CNC-Materion a godwyd gan Cyng Edwards.**

Mae Cyng Edwards wedi cysylltu a Mr Gwion Jones (CNC) ynglyn cyflwr llwybrau ardal Trwsnant/Glanllyn a.y.b.

Mae'r CNC am archwilio'r llwybrau cyhoeddus cyn penderfynnu ar y gwaith sydd angen ei wneud.

Mae Cyng Edwards an gadw mewn cyswllt a Mr Jones ac adrodd yn ol i'r cyngor ar ol derbyn fwy o wybodaeth.

**Materion Ariannol.**

Cyllid misol:

**Cyson Banc: Gorffennaf 2017**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn y Banc ar ddechrau'r Mis:** | | **£6402.81** |
| **Derbyniwyd:** | **Rhodd Matt Ward** | **£ 500.00** |
| **Taliadau:** | **Cyflog/Paye** | **£100.00** |
| | **Toiled Ganllwyd** | **£250.00** |
| **Yn y banc diwedd mis** | | **£6552.81** |

**-------**

**Cyson Banc: Awst 2017**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn y Banc ar ddechrau'r Mis:** | | **£6552.81** |
| **Derbyniwyd:** | **Dim** | |
| **Taliadau:** | **Cyflog/Paye** | **£100.00** |
| | **Ysiwriant (Zurich)** | **£424.44** |
| **Yn y banc diwedd mis** | | **£6028.37** |

Cofnodi Cyflogres- Mae'r cyngor yn cadarnhau mai un person sef y clerc (M.Owen) sydd yn cael ei gyflogi.

Mae'r clerc yn cael ei dalu swm o £100 y.m

Mae'r system PAYE yn bodloni a mae'r clerc yn talu treth incwm.

Nid yw'r clerc yn cael ei dalu ddigon o arian sydd yn gorfodi ei fod yn cael hawliau pensiwn.

Clerc i drefnu fod y “Pension Regulator” yn derbyn y gwybodaeth hyn gan y cyngor.

**Ysiwriant y Cyngor**

Clerc yn cadarnhau fod y cyngor wedi talu y cwmni Zurich am ysiwriant.

**Cynigion gwersylla rhad ac am ddim Llywodraeth Cymru a’r dir mynediad agored.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig 38 pwynt i wneud defnydd o gefn gwlad trwy y ddeddf “Countryside Rights of Way Act 2000- e.e defnydd newydd ar llwybrau cyhoeddus,chwaraeon ar dir mynediad agored, gwersylla a.y.b

Ar ol trafod y mater hwn roedd gan y cyngor rai camddefnyddiau pe bai’r cynnig yn ddod yn gyfraith;

Rhai or pryderon mwyaf i’w;

Iechyd a diogelwch pobl sydd yn cymeryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon mewn ardaloedd gwledaidd.

Ymddygiad gwrthgymdeithiasol gan pobly yn gyrru beiciau modur, yn gwresylla yn ymyl tai yng nghefn gwlad a.y.b

Straen ar wwasanaethau brys yr ardal.

Mae Cyng Dixon am ymateb i Lywodraeth Cymru hefo sylwadau’r cyngor.

**Llythyrau & E-bost.**

**Parc Cenedlaethol** Cais NP5/60/154 Codi polyn mast telathrebu ar dir ger y Neuadd Bentref,Ganllwyd.

Wrth drafod y cynnig yma wnaeth y cyngor y sylwadau isod;

- A oes unrhyw broblemau iechyd yn gysylltiedig a mastiau o’r fath
- Pam mae angen newid y mast sydd wedi lleoli ar dir Ty Cerrig
- Nid oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi’r hawliad fod y cwmni EE wedi ymgynghori ar gymuned am y mater hon.
- Fydd y cymdeithas yn derbyn taliad ariannol am rhoi fynny gyda’r mast yn y pentref.

Clerc i gysylltu hefo’r Parc ynglyn y pwyntiau uchod.

**Clarke Telecom**- Llythyr cyn-ymgynghoriad ynglyn a gosodiad gorsaf Sylfaen arfaethedig ar dir Capel Hermon.

Cyngor wedi nodi cynnwys y llythyr.

**Cyngor Gwynedd**- Llythyr yn rhoi gwybodaeth rhaglen gwaith cynnal priffyrdd yn Medi 2017.

**Un Llais Cymru**- Cyfarfod yn Llyfrgell Rhydd,Dolgellau 26/09/17 7 o'r gloch.

Cyng Dixon i fynychu'r cyfarfod.

**<u>Materion eraill.</u>**

Cyng Morris wedi derbyn gwybodaeth fod llwybr rhif 66 yn ardal Maes Yr Eglwys Wen ym mherchnpgaeth i Cyngor Gwynedd mewn cyflwr mwdlyd a fod plant sydd yn cerdded ar hyd y llwybr er mwyn cyfarfod taxi i fynd i'r ysgol wedi colli esgidiau yn y mwd.

Clerc i gysylltu a Liz Haynes.

Cyng Dixon yn adrodd fod gwteri yn ardal Beech Rd yn dal mewn cyflwr sal sydd yn achosi dwr i lifo ar y ffordd o Ty'n Benthros i waelod y ffordd.

Cyng Jenkins i drafod y mater a Mr Williams swyddfa priffyrdd Cyngor Gwynedd.

Cyng Dixon yn adroddi fod arwyddion yn nodi na ddylid unrhyw gerbyd gael ei yrru at y ffordd CNC tua'r Bothy heb gael ei gosod a fod y barrier sydd i fod ar draws y ffordd byth ar gau.

Clerc i drafod y mater gyda Gwion Jones CNC.

Cyng Hughes yn adrodd fod arwyddion 30 mya wedi cael eu tynnu o'r pentref heb esboniad.

Clerc i gysylltu ar adran Trunk Roads.

Cyng Morris yn adrodd for coed yn taro ar safle bws ger Derwen Deg pan mae hi yn chwthu.Mae'r coed mor fawr gall wneud difrod i'r safle bws.